Ysgol Friars
BANGOR, GWYNEDD. LL57 2LN

www.ysgolfriars.cymru

Ffôn/Phone: 01248 364905
E-bost/E-mail: pennaeth@friars.ysgoliongwynedd.cymru

30/04/2026

**Ysgol yn edrych tua'r dyfodol wrth ddathlu adroddiad arolygwyr**

Yn dilyn ymweliad diweddar i Ysgol Friars ym Mangor, mae arolygwyr Estyn wedi dweud fod "newidiadau sylweddol" wedi bod i'r ysgol. Ymysg y llwyddiannau y cyfeirir atynt mae systemau diogelu a bugeiliol a'r pwyslais cryf ar ailadeiladu ymddiriedaeth a meithrin diwylliant cynhwysol.

Mae arweinyddiaeth yr ysgol a Chyngor Gwynedd wedi croesawu adroddiad yr arolygwyr addysg cenedlaethol ac wedi ymrwymo i gryfhau meysydd ble mae lle i wella.

'Nôl ym mis Chwefror, fel rhan o'r ymweliadau rheolaidd mae pob ysgol yng Nghymru yn eu cael, cynhaliwyd adolygiad manwl o safon yr addysgu a'r dysgu; lles, gofal, cymorth ac arweiniad o fewn yr ysgol; ac o drefniadau arwain a gwella.

Yn eu hadroddiad, mae'r adolygwyr yn nodi fod staff a llywodraethwyr yn ymroddgar; fod ymddygiad disgyblion yn dda; ac fod yr ysgol yn darparu amgylchedd ofalgar gyda darpariaeth ar gyfer anghenion emosiynol a dysgu disgyblion.

Cyfeiria'r adroddiad hefyd at y ffaith fod yr ysgol yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg ar draws y cwricwlwm.

Mae'r adroddiad yn nodi argymhellion er mwyn sicrhau fod Ysgol Friars yn parhau i ffynnu ac mae trefniadau eisoes ar y gweill i fabwysiadu rhain i gynllun datblygu'r ysgol.

Dywedodd Margaret Davies, Pennaeth dros dro Ysgol Friars:

"Roedd yn braf croesawu y tîm o Estyn yma i'r ysgol ar ôl hanner tymor mis Chwefror, a chael cyfle i ddangos sut'r mae'r disgyblion a'r staff yn cyfrannu tuag at wneud yr ysgol yn le arbennig.

"Yn ystod yr ymweliad, bu'r arolygwyr yn cyfweld staff a llywodraethwyr, yn siarad â disgyblion ac yn edrych ar eu gwaith, yn ymweld â'r rhan fwyaf o wersi, ac yn craffu ar ein polisïau a'n gweithdrefnau. Roedd hyn yn ychwanegol i anfon holiaduron at rieni a gofalwyr, disgyblion, staff a llywodraethwyr.

"Rydym yn falch iawn o ganfyddiadau'r adroddiad, sy'n dyst i ymrwymiad a gwaith caled disgyblion a staff Ysgol Friars.

"Wrth gwrs, nid da lle gellir gwell ac mae'r adroddiad yn nodi'r meysydd lle mae angen i ni barhau i wella. Rydym yn croesawu'r argymhellion hyn ac wedi ymrwymo'n llawn i fynd i'r afael â hwy yn drylwyr ac yn effeithiol."

Ychwanegodd Elin Walker Jones, Cadeirydd Bwrdd Llywodraethol Ysgol Friars:

"Diolch i arolygwyr Estyn am eu gwaith manwl a phroffesiynol. Talaf deyrnged i staff yr ysgol gan fod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu eu hymroddiad a'u brwdfrydedd a diolch hefyd i deuluoedd ein disgyblion a'r gymuned ehangach am eu cefnogaeth barhaus.

"Wrth i ni gyd edrych tua'r dyfodol, mae'r adroddiad hwn yn gam arall ymlaen wrth i ni gyd-weithio er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth addysgol, cymunedol a llesiant orau i'n pobl ifanc."

Gellir darllen yr adroddiad llawn yma: Adroddiad arolygiad Ysgol Friars 2026

---

**School looks to the future as it celebrates inspectors' report**

Following a recent visit to Ysgol Friars in Bangor, Estyn inspectors have said that there have been "significant changes" at the school. Among the successes referred to in the report are safeguarding and pastoral systems as well as the strong emphasis on rebuilding trust and fostering an inclusive culture.

The school's leadership and Cyngor Gwynedd have welcomed the national education inspectors' report and have committed to strengthening the areas where room for improvement has been identified.

Back in February, as part of the regular visits made to all schools in Wales, a detailed review was carried out of the quality of teaching and learning; wellbeing, care, support and guidance within the school; and leadership and improvement arrangements.

In their report, the inspectors note that staff and governors are dedicated; that pupils' behaviour is good; and that the school provides a caring environment with provision for pupils' emotional and learning needs.

The report also refers to the fact that the school plans opportunities for pupils to develop their Welsh-language skills across the curriculum.

Ysgol Friars
BANGOR, GWYNEDD. LL57 2LN

www.ysgolfriars.cymru

Ffôn/Phone: 01248 364905
E-bost/E-mail: pennaeth@friars.ysgoliongwynedd.cymru

The report also sets out recommendations to ensure that Ysgol Friars continues to thrive, and arrangements are already in place to incorporate these into the school's development plan.

Margaret Davies, Acting Headteacher of Ysgol Friars, said:

"It was a pleasure to welcome the Estyn team to the school after the February half-term, and to have the opportunity to show how the pupils and staff contribute to making the school a special place.

"During the visit, inspectors interviewed staff and governors, spoke with pupils and looked at their work, visited the majority of lessons, and scrutinised our policies and procedures. This was in addition to sending questionnaires to parents and carers, pupils, staff and governors.

"We are very pleased with the findings of the report, which bear witness to the commitment and hard work of Ysgol Friars pupils and staff.

"Of course, there is always room for improvement, and the report identifies the areas where we need to continue to strengthen. We welcome these recommendations and are fully committed to addressing them thoroughly and effectively."

Elin Walker Jones, Chair of the Governing Body of Ysgol Friars, added:

"Thank you to Estyn inspectors for their detailed and professional work. I pay tribute to the school's staff, as this report reflects their dedication and enthusiasm, and I also thank our pupils' families and the wider community for their continued support.

"As we all look to the future, this report is another step forward as we work together to ensure the best possible educational provision, community hub and wellbeing for our young people."

The full report is available on the Estyn website here: [Inspection report Ysgol Friars 2026]